

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 8 Gorffennaf 2019, pan ddosbarthwyd dros 1000 o lythyron yng Nghanol Tref Ystrad Mynach ac yn y strydoedd cyfagos. Rhoddwyd gwybod i'r cyhoedd am ddiwyddiad ymgynghori, wedi'i drefnu yn Ysgol Lewis i Ferched, i ystyried y cynigion ar gyfer Cynllun Teithio Llesol er mwyn cynnig gwelliannau diogel a phriodol ar gyfer cerdded a beicio a fydd, yn y pen draw, yn cysylltu â Phengam yn y gogledd a chanol tref Ystrad Mynach, ar hyd coridor yn dilyn ffordd yr A469.

Roedd yr ymgynghoriad ar gael **ar-lein ac ar bapur** yn yr arddangosfa ac ar y dudalen we, ac roedd yn cynnwys dolen i fapiau a gwybodaeth.

Rhoddwyd ffordd i bob un o'r preswylwyr gysylltu â'r Awdurdod i gael rhagor o fanylion neu i'w galluogi i ofyn am ragor o gymorth. Rhoddwyd gwybod ymlaen llaw i'r Aelod Cabinet ac Aelodau'r Wardiau am yr ymgynghoriad, a rhoddwyd gwybod i'r Cyngor Cymuned hefyd.

Cafwyd 54 o ymatebion. Daeth 37 aelod o'r cyhoedd i'r arddangosfa. Roedd 59% o'r rhain yn breswylwyr Heol Pengam, lle y mae'r prif newidiadau'n cael eu cynnig, ac roedd 41% yn byw yng nghyffiniau'r cynllun.

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent, yn gyffredinol, yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynllun a amlinellir yn y cynnig.

48.0% - Yn anghytuno â'r cynllun arfaethedig. Roedd 17% o'r ymatebwyr a anghytunodd â'r cynllun yn dweud bod cwblhau cysylltiad Cwm Calon yn fwy buddiol na chyflawni'r cynllun hwn.

43.0% - Yn cytuno â'r cynllun fel y'i dangoswyd.

9.0% - Heb fynegi barn neu ddim yn gwybod.

Mae'r ymateb ysgrifenedig a awgrymir i sylwadau'r ymatebwyr wedi'i gynnwys yn Nhabl B.

Mae Tabl A yn cynnwys yr ymateb a'r penderfyniad ynghylch pob sylw ysgrifenedig a fydd yn cael ei roi ar y wefan ac mae'n cynnwys y newidiadau a wneir i'r cynnig dylunio. Bydd y testun yn cael ei anfon at y bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a roddodd gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad cyswllt.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

Tabl A

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 8 Gorffennaf 2019, pan ddosbarthwyd dros 1000 o lythyron yng Nghanol Tref Ystrad Mynach ac yn y strydoedd cyfagos.

Rhodddwyd gwybod i'r cyhoedd am ddigwyddiad ymgynghori, wedi'i drefnu yn Ysgol Lewis i Ferched, lle y gellid gweld y cynigion ar gyfer Cynllun Teithio Llesol er mwyn cynnig gwelliannau diogel a phriodol ar gyfer cerdded a beicio a fydd, yn y pen draw, yn cysylltu â Phengam yn y gogledd a chanol tref Ystrad Mynach, ar hyd coridor yn dilyn ffordd yr A469. Rhodddwyd y cynnig a'r wybodaeth ar y wefan a gallai preswylwyr roi eu sylwadau trwy lenwi holiadur ar-lein.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn cynnwys sylwadau am gyflwyno'r cynllun yn hytrach na'r gwelliannau arfaethedig i gerdded a beicio ar gyfer Ystrad Mynach, gan ddatgan y dylid rhoi blaenoriaeth i Gyswllt Beicio Cwm Calon a'i gyflawni.

Cadarnhaf fod gwaith yn mynd rhagddo o hyd ar gynllun Cwm Calon a bod gwaith arolwg a dyluniad amlinellol wedi'u cynhyrchu. Bydd y cynllun yn parhau i gael ei ddatblygu a'i symud ymlaen fel y gellir ceisio cyllid. Nid yw'r ddau gynllun hyn yn cystadlu â'i gilydd, ond maent wedi cyrraedd camau gwahanol oherwydd materion tir sydd heb eu datrys. Mae swyddogion yn ceisio cyflymu'r broses hon ond maent yn dibynnu ar sefydliadau allanol er mwyn datrys materion tir.

Ymateb i'r rhai sy'n darparu cyfeiriad cyswllt:-

Annwyl Syr/Madam,

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar Gam 1 y cynigion Teithio Llesol ynghylch cerdded a beicio o Ystrad Mynach i Bengam.

Mae pob awgrym am newidiadau i'r cynllun wedi'u hystyried. Bydd yr ymateb hwn, y lluniadau dylunio terfynol a gwybodaeth ychwanegol ar gael ar y wefan Teithio Llesol yn <https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Transport-and-parking/Active-Travel/Active-Travel-Route-Phase-1-Pengam-to-Ystrad-Mynac?lang=cy-gb>.

Bydd materion y tu hwnt i gwmpas y cynllun ac sy'n ymwneud â materion Rheoli Traffig yn ehangach, fel y system unffordd a awgrymir a'r ceisiadau am barcio ychwanegol, yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad o'r holl gynigion trafnidiaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar Uwchgynllun Ystrad Mynach. Hefyd, bydd adolygiad o reoliadau parcio ar draws y fwrdeistref yn cael ei ystyried a'i flaenoriaethu, yn sgil cyflwyno Gorfodi Sifil ar Barcio.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

Bydd cynnig y cynllun yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn yna caiff y cynllun ei raglennu i'w gyflawni:-

- Bydd byrddwr (troedffordd ymwithiol) newydd y safle bysiau yn lleihau mewn maint a bydd y rhan o'r ynys ar gyfer cerddwyr yn cael ei ddileu i leihau'r effaith ar y lleoedd parcio sydd ar gael.
- Bydd yr ymestyniad a awgrymwyd i'r terfyn cyflymder 20 mya yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gam nesaf y gwelliannau cerdded a beicio arfaethedig rhwng Ystrad Mynach a Phengam.
- Bydd y porth a'r arwyddion cysylltiedig wrth ddod at y terfyn cyflymder 20 mya o'r dwyrain, o gyfeiriad Cylchfan Tesco, yn cael eu diwygio ychydig er mwyn caniatáu mynediad uniongyrchol i eiddo.
- Bydd dyluniad y lonydd beicio'n cael eu hailystyried ac, os bydd y lle sydd ar gael yn caniatáu, bydd maint (lled) y lonydd beicio'n cynyddu. Mae'r lonydd beicio ymgynghorol wedi'u cynnwys fel rhan o ddyluniad y cynllun yn unig ar ochr ddwyreiniol Heol Pengam (gerllaw Cylchfan Tesco).
- Ni fydd marciau'r manau parcio newydd arfaethedig sy'n dangos lleoedd parcio ar y stryd, gerllaw Canol y Dref tua'r gorllewin o borth newydd yr ardal 20mya ar hyd Heol Pengam yn cael eu gweithredu ac, felly, ni fydd effaith ar y parcio presennol ar y stryd.
- Bydd cyfleoedd i ddarparu lle diogel i barcio beiciau yng Nghanol y Dref yn cael eu harchwilio.
- Bydd yr addasiadau a awgrymir i gyffordd Heol Pengam a Stryd Davies, sy'n gwella'r symudiadau troi wrth y gyffordd, yn cael eu rhoi ar waith ar yr amod bod y newidiadau yn ymarferol.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yr eiddoch yn gywir
Ar gyfer ac ar ran

Y Pennaeth Seilwaith

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio'r data a ddarparwyd gennych yn ein dadansoddiad ac i lywio datblygu ein polisiau/cynlluniau a, lle bo'n briodol, i lywio ein penderfyniadau a'n newidiadau. Ni fydd eich sylwadau yn derbyn atebion yn awtomatig, ond fe'u hystyrir wrth adolygu a gwerthuso'r gefnogaeth i'r polisi/cynllun. Byddwn yn hysbysu'r rhai sydd wedi cymryd rhan/ymateb am ganlyniad ein hymgyngoriad os yw'r ymatebydd wedi darparu cyfeiriad cyswllt.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu. Am ragor o

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

wybodaeth am eich hawliau a sut byddwn yn prosesu eich gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:
<https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Project-Development-Consultation-cy.aspx>

Tabl B Sylwadau ac awgrymiadau a wnaed yn yr ymgynghoriad:-	Ymateb i'r sylwadau:
<p>Mae'r 6 cham arfaethedig yn ymwneud yn bennaf â gostwng cyflymder a gostegu llif y traffig, yn hytrach na darparu llwybrau beicio/cerdded/sgwteri symudedd ar wahân. Ni fydd hyd yn oed cynnig marciau ffordd ac arwyddion lonydd beicio ymgynghorol yn cael fawr o effaith.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r ffaith eu bod yn ymgynghorol yn golygu nad oes rhaid i feicwyr eu defnyddio ac mae profiad yn dweud na fyddant yn eu defnyddio. Nid yw'r cam hwn yn annog cerdded – dyna'r achos hefyd gyda'r 5 pwynt arall. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd defnydd beicwyr o'r lonydd beicio ar ochr ddwyreiniol Heol Pengam yn cael ei fonitro ac, os byddant yn fuddiol, gall y lonydd beicio yn natblygiad cam nesaf y cynllun gael eu gwneud yn orfodol. Bydd cynnwys croesfan i gerddwyr yn rhoi cyfle gwell iddynt groesi'r ffordd yn ddiogel.
<ul style="list-style-type: none"> Credaf fod angen i chi ymestyn y parth 20mya i gynnwys yr ardal o fewn yr A472, yr A469 a'r rheilffordd, Ystrad Mynach i Fargoed, hyd at gylchfan Tesco ac yn cynnwys yr Avenue. Bydd hyn yn atal gyrwyr rhag defnyddio Stryd Bedwlwyn/Stryd Davies fel llwybr tarw i osgoi tagfeydd traffig. Credaf y dylech chi hefyd wneud Stryd Lewis/y Stryd Fawr/Heol Pengam yn ffordd unffordd i ostwng llif y traffig a llygredd ymhellach trwy ganol Ystrad Mynach. Bydd hyn yn caniatáu i chi greu llwybr beicio hefyd. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r defnydd o derfynau cyflymder 20 mya mewn ardaloedd trefol yn cael ei gefnogi'n gyffredinol. Mae'r terfyn 20 mya yn cynnwys yr ardal a awgrymoch a bwriedir adnewyddu'r pyrth fel rhan o'r cynllun arfaethedig hwn. Nodir yr awgrym am system unffordd. Mae cyflwyno system unffordd yn galw am ystyriaeth ofalus a byddai angen astudiaeth i werthuso'r effaith ar y rhwydwaith priffyrdd. Cafodd yr ymgynghoriad diweddar ar Uwchgynllun Ystrad Mynach nifer o awgrymiadau tebyg ynghylch Rheoli Traffig, a fydd yn cael eu hystyried.
<ul style="list-style-type: none"> Cytunaf am y mesurau gostegu traffig ond, ond fel un o breswylwyr Heol Pengam, gallaf weld bod y twmpath pen gwastad yn uniongyrchol y tu allan i'm heiddo ac rwy'n pryderu y bydd yn effeithio ar fy ngallu i barcio fy nghar y tu allan i'm 	<ul style="list-style-type: none"> Mae gofod rheolaidd rhwng y nodweddion gostegu traffig i arafu cyflymder y traffig ac ni fyddai symud y nodwedd i'r lleoliad a awgrymir yn opsiwn. Bydd y bwriad i ddileu'r ynys yn helpu i ddarparu

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<p>heiddo i. Petai'r twmpath ymhellach i lawr y ffordd, does dim mynediad o flaen y byngalos, felly ni fyddai'n effeithio ar y preswylwyr sy'n byw ymhellach i lawr y ffordd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni ddylai eiddo unigol gael eu dethol yn fy marn i a dylai rhywfaint o barcio gael ei adael y tu allan i bob cartref 	<p>mwy o le i geir sydd wedi'u parcio wrth ochr y ffordd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid yw presenoldeb twmpath pen gwastad y tu allan i eiddo yn atal parcio.
<ul style="list-style-type: none"> Dywedir mai anfanteision sydd gan dwmpathau ffordd yn gyffredinol. Maen nhw 1. Yn cynyddu llygredd oherwydd traul y brêc a defnyddio mwy o danwydd.2. Yn achosi tarfu ar breswylwyr cyfagos oherwydd mwy o sŵn.3. Difrod i arwyneb y ffordd oherwydd effaith cerbydau ar ôl mynd heibio i'r twmpathau. Mae adolygiadau diweddar o'r twmpathau hyn wedi dangos eu bod yn gwbl dda i ddim. Mae'n amheus p'un a oes angen croesfan sebra. Rwy'n cerdded ar hyd y darn hwn o'r ffordd yn aml. Nid wyf yn gwybod am unrhyw anhawster croesi i mi nac i unrhyw un arall. 	<ul style="list-style-type: none"> Er y gall rhai mesurau rheoli traffig arwain at fwy o allyriadau fesul cerbyd, maen nhw'n arwain yn gyffredinol at lai o draffig hefyd. Felly, hyd yn oed os bydd allyriadau fesul cerbyd yn cynyddu, mae'n bosibl i'r gostyngiad mewn traffig wneud yn iawn am hyn. Mae lefel y traffig mewn ardaloedd preswyl yn gymharol fach ac mae traffig sy'n cael ei wyrto i ffyrdd eraill yn annhebygol o gael effaith fawr ar allyriadau. Mae cefnogaeth ymhlith y gymuned ar gyfer y groesfan, sy'n awgrymu'r angen, ac mae hefyd yn gyfle i annog mwy o gerdded a beicio (Teithio Llesol).
<ul style="list-style-type: none"> Ochr yn ochr â'r cynllun, dylech ystyried gostegu'r traffig ar hyd Stryd Davies neu gyfyngu ar lif y traffig, yn enwedig gan y bydd croesfan sebra'n cael ei hadeiladu wrth y pen isaf. Mae mwy o draffig i fyny ac i lawr y ffordd oherwydd bod y llwybr ar draws y cwm, ar waelod Rhiw Butler, wedi'i gau ac, yn fwy arwyddocaol, oherwydd y cyfyngiadau ar y llif i fyny ac i lawr Heol Bedwlwyn oherwydd bod traffig yn parcio ar hyd dwy ochr y ffordd. Hefyd, mae angen lleihau mynediad i gerbydau trwm oherwydd y gyfnewidfa gwasanaethau sylweddol. 	<ul style="list-style-type: none"> Byddai'n anodd rhoi nodweddion gostegu traffig adeiledig ar waith ar hyd Stryd Davies oherwydd y topograffi. Gallai'r mesurau arfaethedig ar gyfer Heol Pengam ostwng llif cerbydau ar hyd Stryd Davies. Bydd parcio ar ochr y stryd yn helpu i arafu cyflymder cerbydau ar hyd ffordd. Mae'r llwybr yn ddosbarthwr pwysig traffig yn lleol ac ni fyddai cyfyngu ar lif cerbydau nwyddau trwm yn atal mynediad dilys. O ystyried lleoliad Stryd Davies a pha mor agos ydyw at Ganol y Dref, byddai cyfyngu ar fynediad cerbydau nwyddau trwm yn anodd. Amlygodd yr ymgynghoriad

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

	<p>diweddar ar Uwchgynllun Ystrad Mynach nifer o bryderon tebyg o ran Rheoli Traffig, a fydd yn cael eu hystyried.</p>
<ul style="list-style-type: none"> Ni ddylid caniatáu i draffig barcio gyferbyn â'r gyffordd â Stryd David. Dylid cael llinellau melyn dwbl, hyd yn oed os yw'r llinellau igam-ogam yn cwmpasu ardal benodol. Rydym fel petai'n gwario llawer o arian ar y beicwyr sydd ddim yn talu treth nac yswiriant; mae llawer o lwybrau beicio yn yr ardal. Beth am gynnwys y lôn feicio gyda'r palmant i gerddwyr – llai o bosibilrwydd o ddamweiniau e.e. ceir yn tynnu allan o leoedd parcio, drysau'n agor, ac ati. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r llinellau igam-ogam sy'n rheoleiddio'r groesfan sebra yn orfodol o ran atal parcio. O ganlyniad, bydd hyn yn atal cerbydau rhag parcio ar gyffordd Heol Pengam/Stryd Davies. Nodir eich awgrym am ledu'r droedffordd ond o ystyried bod cyfyngiadau ar faint o barcio sydd ar gael i breswylwyr a'r ffaith y byddai lledu'r troedffordd yn arwain at yr angen i ddileu lleoedd parcio, ni ellir cefnogi hyn.
<ul style="list-style-type: none"> Yn hytrach na thwmpathau atal cyflymder a fydd yn creu gormod o sŵn y tu allan i'n cartref, rhowch gamerâu cyflymder. Bydd pobl ifanc yn defnyddio'r twmpathau i lansio'u ceir am sbort 	<ul style="list-style-type: none"> Partneriaeth Gan Bwyll sy'n penderfynu ar y defnydd o Gamerâu Cyflymder parhaol ac fe'u gosodir dim ond os caiff meini prawf llym eu bodloni. Mae gyrru'n beryglus yn drosedd a chynghori aelodau'r cyhoedd i roi gwybod i'w heddlu lleol am ddigwyddiadau o'r natur hwn.
<ul style="list-style-type: none"> Camerâu cyflymder y ddau ben i Heol Pengam, mwy o arian i'r cyngor, dim angen am safle bysiau i fysiau sy'n mynd allan o Ystrad Mynach. 	<ul style="list-style-type: none"> Partneriaeth Gan Bwyll sy'n penderfynu ar y defnydd o Gamerâu Cyflymder parhaol ac fe'u gosodir dim ond os caiff meini prawf llym eu bodloni. Bydd dyluniad byrddwr (troedffordd ymwthiol) y safle bysiau yn cael ei ddiwygio i leihau'r effaith ar nifer y lleoedd parcio fydd ar gael, ond mae ei angen ar hyd y rhan hon o Heol Pengam.
<ul style="list-style-type: none"> Rwy'n anghytuno am y safle bysiau, mae'n cymryd lle 4 car. Dydw i byth yn gallu parcio fy nghar y tu allan i fy nhŷ 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd dyluniad byrddwr (troedffordd ymwthiol) y safle bysiau yn cael ei ddiwygio i leihau'r effaith ar nifer y lleoedd parcio ar Heol Pengam.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<ul style="list-style-type: none"> • Yn fy marn i dylai system unffordd ddod yn ôl i'r pentref. Rwyf wedi gwneud cais am le parcio i berson anabl gan na allaf gerdded i'r garej. Rwy'n defnyddio ffon a chadair olwyn xx Heol Pengam. Rwy'n credu dylai fod cylchfan wrth y fynedfa i Lidl. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cyflwyno system unffordd yn galw am ystyriaeth ofalus a byddai angen astudiaeth i werthuso'r effaith ar y rhwydwaith priffyrdd. Cafodd yr ymgynghoriad diweddar ar Uwchgynllun Ystrad Mynach nifer o awgrymiadau tebyg ynghylch Rheoli Traffig, a fydd yn cael eu hystyried. • Ni fydd y cynllun arfaethedig yn effeithio ar eich cais am le parcio i berson anabl. • Byddai'r awgrym o greu cylchfan wrth y fynedfa i Lidl yn arwain at lai fyth o leoedd parcio; mae preswylwyr wedi datgan na fyddent yn cefnogi hyn.
<ul style="list-style-type: none"> • Rwy'n ofni na fydd y ddarpariaeth / lonydd beicio sy'n cael eu rhannu yn ddiogel rhag defnyddwyr eraill y ffordd a cheir wedi'u parcio. • Byddai llwybr cerddwyr / beicio sy'n cael ei rannu, wedi'i gynnwys yn rhan o'r palmentydd presennol, yn fwy diogel o lawer 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r terfyn cyflymder o 20 mya yn galluogi beicwyr i deithio yn y prif safle (yng nghanol lôn y ffordd gerbydau) gan leihau gwrthdaro â cherbydau sydd wedi'u parcio wrth ochr y ffordd pe darperir lonydd beicio dynodedig drwy Ganol cyfyngedig y Dref. • Byddai gweithredu llwybr beicio a cherdded o fewn y palmant presennol yn creu'r angen i leihau'r pacio ar y stryd ac mae preswylwyr wedi datgan nad oes digon o barcio ar hyn o bryd. O ganlyniad, ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael ei gefnogi.
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n ddrwg gen i, ond rwy'n gwrthwynebu hyn yn gryf. Ni fydd preswylwyr Heol Pengam yn gallu parcio. Oes unrhyw un wedi edrych ar hyn, a pham ddim camerâu yn hytrach na thwmpath yn y ffordd 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr effaith ar barcio ar ochr y stryd o ganlyniad i'r cynllun yn cael ei lleihau gymaint â phosibl. • Partneriaeth Gan Bwyll sy'n penderfynu ar y defnydd o Gamerâu Cyflymder parhaol ac fe'u gosodir dim ond os caiff meini prawf llym eu bodloni.
<ul style="list-style-type: none"> • Yn bwysicaf oll, ni ddylai'r pontio 20/30 mya wrth ben gogleddol Heol Pengam fod yn ei safle arfaethedig, yn hytrach, dylai fod ar waelod y rhiw ychydig cyn cylchfan Tesco 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd ymestyn y terfyn cyflymder 20mya yn cael ei ystyried fel rhan o gam 2 y cynllun.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r parcio yn broblem enfawr fel y mae. Fwy nag unwaith, rwy' wedi gorfod parcio yn Lidl neu fynd at fy nhad. Bydd llygredd sŵn i breswylwyr. A allwch chi ddatrys y problemau parcio? Mae'r maes parcio yn Ystrad wastad yn llawn, yn ogystal â Lidl. • Mae parcio wedi troi'n fwy fyth o broblem ers i swyddogion gorfodi parcio ddechrau mynd o gwmpas gan eu bod nhw'n eu hanfon nhw draw i Heol Pengam a Lidl. Rwy'n credu bod y cynllun yn dda i hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr effaith ar barcio ar ochr y stryd o ganlyniad i unrhyw gynllun sy'n cael ei ddatblygu yn cael ei lleihau gymaint â phosibl. Mae datrys problemau parcio'r tu hwnt i gwmpas y Cynllun Teithio Llesol. Cafodd yr ymgynghoriad diweddar ar Uwchgynllun Ystrad Mynach nifer o geisiadau tebyg ynghylch y ddarpariaeth parcio, a bydd y rhain yn cael eu hystyried. • Bydd cyfyngiadau ar barcio ar draws yr Awdurdod yn cael eu hystyried a'u blaenoriaethu yn sgil cyflwyno Gorfodi Sifil ar Barcio.
<ul style="list-style-type: none"> • Fel un o breswylwyr Heol Pengam, mae'n rhaid imi ofyn pam rydych chi wedi penderfynu y dylai'r darn coch gael ei osod y tu allan i'm heiddo i. Gan nad ydw i'n gallu gyrru mwyach, rwy'n dibynnu ar eraill (taxis, ac ati) i aros y tu allan i fy nhŷ i, a bod ymwelwyr hefyd yn gallu parcio'r tu allan ac aros gyda mi. Pam na all y darn coch hwn gael ei symud ymhellach i lawr y rhiw lle nad oes mynediad, rhag blocio tŷ ar yr Avenue. Dim ond drwy'r garej y galla' i fynd i mewn drwy'r cefn – mae llawer o risiau felly mae mynediad drwy'r drws cefn yn anodd 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y cais i symud nodwedd y porth a'r arwyddion cysylltiedig yn cael ei adolygu a'i newid i leoliad nad yw'n ymyrryd â'r mynediad uniongyrchol i'ch eiddo.
<ul style="list-style-type: none"> • Mae llygredd sŵn i bobl sy'n byw ger lle mae'r broblem parcio yn bryder enfawr. Rwy'n cymhwyso'r uwchraddio a'r ychwanegiad at lwybrau cerdded a beicio i'r pellaf. Fy unig bryder gyda'r diweddariadau arfaethedig a ddangoswyd ar 15.7.19 yw fy mod i'n byw ger y safle bysiau arfaethedig ac rwy'n teimlo y bydd hyn yn effeithio ar fy lles i. Yn fy marn i, gallai'r safle bysiau gael ei symud ymhellach i lawr y stryd tuag at gylchfan Tesco. • Mae angen talu rhywfaint o sylw i barcio i breswylwyr, bach iawn o leoedd sydd wedi'u neilltuo yn ystod y diwrnod ar hyn o bryd ac ni fydd cynnig y cynllun hwn yn helpu yn fy marn i. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cynnydd mewn sŵn sy'n gysylltiedig â'r safle bysiau yn debygol o fod yn fach iawn gan fod y preswylwyr yn dweud mai nifer bach iawn o bobl sy'n defnyddio'r safle presennol. • Roedd llawer o'r rhai a ddaeth i'r arddangosfa wedi sôn am broblemau'r lleoedd parcio sydd ar gael ar ochr y stryd. O ganlyniad, mae byrddwr (safle newydd) y bysiau y tu allan i'r eiddo preswyl wedi'i ddiwygio a bydd maint y dyluniad yn cael ei leihau. Bydd y droedffordd ymwithiol yn cael ei thynnu o ochr Lidl y stryd i leihau'r effaith ar y lleoedd parcio sydd ar gael ar ochr y stryd.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

	<ul style="list-style-type: none"> Mae datrys y problemau parcio presennol y tu hwnt i gwmpas y Cynllun Teithio Llesol. Fodd bynnag, bydd cyfyngiadau ar barcio ar ochr y stryd ar draws yr Awdurdod yn cael eu hystyried a'u blaenoriaethu, gan fod Gorfodi Sifil ar Barcio bellach wedi'i gyflwyno.
<ul style="list-style-type: none"> Dylai'r twmpathau ar Stryd Lewis fod yn dwmpathau pen gwastad neu, yn ddelfrydol, gael eu dileu'n gyfan gwbl oherwydd gallant achosi niwed i bobl ag anafiadau'r gwddf neu'r cefn, yn ogystal ag achosi difrod i gerbydau. Dylai'r terfyn cyflymder o 20 mya gael ei ymestyn yr holl ffordd i gylchfan Tesco gan fod ceir yn cyflymu wrth iddynt deithio i lawr y rhiw o Ystrad Mynach ar hyd y ffordd newydd tuag at gylchfan Tesco. Mae angen camerâu cyflymder ar y ffordd newydd i gefnogi'r terfyn cyflymder newydd oherwydd heb y rhain ac oherwydd y prinder hysbys o heddwision, mae'r terfynau cyflymder newydd yn gwbl ddiwerth ac yn wastraff amser ac arian cyhoeddus. Byddai camerâu cyflymder yn well o lawer na gosod twmpathau, boed yn dwmpathau pen gwastad neu'n dwmpathau 'arferol'. Nid yw'r cynllun newydd hwn yn gwneud dim i gynorthwyo cerddwyr sy'n croesi o'r Avenue i archfarchnad Tesco ar ymyl cylchfan Tesco, lle mae ceir o Ystrad Mynach yn cyflymu tuag atynt neu le y mae ceir o'r Avenue yn ceisio gadael yr Avenue yn ddiogel. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r addasiadau i'r clustogau a'r twmpathau ar Stryd Lewis y tu hwnt i gwmpas y prosiect. Partneriaeth Gan Bwyll sy'n penderfynu ar y defnydd o Gamerâu Cyflymder parhaol ac fe'u gosodir dim ond os caiff meini prawf llym eu bodloni. Bydd yr estyniad i'r terfyn cyflymder o 20mya hyd at y gylchfan y tu allan i Tesco yn cael ei ystyried fel rhan o Gam 2 cynllun Ystrad Mynach i Bengam. Bydd hyn yn cynnwys astudiaeth i ystyried cyflymder y traffig sy'n cael ei gofnodi ar ôl gweithredu cam 1 y cynllun.
<ul style="list-style-type: none"> Gobeithio bydd arwyddion ar Ffordd Pengam i ddangos yn glir mai 20 mya yw'r terfyn cyflymder ar gyfer traffig. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae arwyddion y terfyn cyflymder wedi'u cynnwys ar ffurf y gwelliannau i'r pyrth yn y cynllun arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys arwyddion sy'n ailadrodd yr 20 mya lle nad oes unrhyw nodweddion adeiledig wedi'u gosod ac mae cyflymder cerbydau o fewn ystod dderbyniol.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<ul style="list-style-type: none"> Gosodwyd camera cyflymder ar Commercial Street lle'r oedd ceir yn mynd ar gyflymder o 50mya - 60mya pan oedd cwlfwr yn y pentref yn cael ei drwsio. Roedd y traffig yn unffordd yn y pentref, felly pam ddim cael hyn yn barhaol. 	<ul style="list-style-type: none"> Partneriaeth Gan Bwyll sy'n penderfynu ar y defnydd o Gamerâu Cyflymder parhaol ac fe'u gosodir dim ond os caiff meini prawf llym eu bodloni. Nodir yr awgrym o gael system unffordd. Mae cyflwyno system unffordd yn galw am ystyriaeth ofalus a byddai angen astudiaeth i werthuso'r effaith ar y rhwydwaith priffyrdd. Cafodd yr ymgynghoriad diweddar ar Uwchgynllun Ystrad Mynach nifer o awgrymiadau tebyg ynghylch Rheoli Traffig, a fydd yn cael eu hystyried.
<ul style="list-style-type: none"> Mae ceir sy'n gadael Lidl yn hunllef; mae angen cylchfan fach ac i arwyddion ildio fod yn fwy amlwg. Beth am gamerâu? Pam safle bysiau ar Heol Pengam, rhowch hi nôl wrth ymyl Erin's, lle'r arferai fod. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd yr arwyddion wrth gyffordd Lidl yn cael eu hystyried. Partneriaeth Gan Bwyll sy'n penderfynu ar y defnydd o Gamerâu Cyflymder parhaol ac fe'u gosodir dim ond os caiff meini prawf llym eu bodloni. Ni fyddai'r adolygiad o safleoedd bysiau a'u symud i le yn bell o safle'r gwasanaeth gorllewinol yn cael ei gefnogi, gan fod y gwasanaeth bysiau yn darparu am deithiau i archfarchnadoedd lleol ac ohonynt, ac mae angen i'r safleoedd fod mewn lleoliad cyfagos i fod yn hygyrch ar gyfer y daith hon.
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n well gen i'r opsiwn o lwybr beicio yn debyg i arferion sy'n cael eu dilyn yng ngwledydd yr UE, ond rwy'n bryderus iawn am effaith y traffig ar ardaloedd cyfagos, yn enwedig Heol Bedwlwyn. (Mae'n flin gen i am y ffordd mae staff wedi cael eu trin gan breswylwyr eraill) 	<ul style="list-style-type: none"> Mae dyluniad y cynllun yn lleihau'r effaith cymaint â phosibl ar batrymau traffig presennol. Nid yw dyluniadau Ewropeaidd bob amser yn adlewyrchu'r safonau dylunio sy'n ofynnol yn y Deyrnas Unedig, nac yn cydymffurfio â nhw.
<ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wir yn gweld bod gofyn cael lonydd beicio i fyny'r A469 gan nad oes unrhyw bwynt moddol yn Ystrad Mynach nac ym 	<ul style="list-style-type: none"> Mae Ystrad Mynach yn gyrchfan allweddol (Canol Tref) gyda llawer o wasanaethau a chyfleusterau

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<p>Mhengam.</p>	<p>allweddol. O ganlyniad, mae darparu seilwaith cerdded a beicio diogel a hygyrch sy'n cysylltu'r pentrefi lleol ag Ystrad Mynach yn agwedd bwysig ar annog newid moddol i gyfryngau teithio cynaliadwy.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Pa cyflwyno parthau 20 mya a gostegu traffig? Sut bydd hyn yn annog cerdded neu feicio? Am arolwg cachu – 2 gwestiwn! 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r angen i wella diogelwch yr ardal yn cael ei gyflawni trwy newid y terfyn cyflymder a gostegu'r traffig. Mae cyfyngiadau ar ddyluniad y cynllun, gan gynnwys y lle sydd ar gael yn y ffordd a'r angen i ystyried lleoliad y cynllun, sef Canol Tref. Adlewyrchir hyn yn briodol yn y dyluniad arfaethedig. • Bydd y gostyngiad yng nghyflymder y traffig yn galluogi beicwyr i deithio'n ddiogel yn y traffig a bydd amwynder/diogelwch cerddwyr yn cael ei wella trwy osod y groesfan sebra.
<ul style="list-style-type: none"> • Gwastraff amser llwyr 	<ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd.
<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen mesurau gostegu traffig ar Heol Pengam. • Mae gadael o Lidl / o faes parcio'r cyngor i Heol Pengam (yn enwedig troi i'r dde) yn anodd iawn gan fod y ffordd braidd yn serth yno ac mae'r ceir sydd wedi'u parcio ar ochrau'r ffordd yn cyfyngu ar welededd. • Byddai gorfodi terfyn cyflymder is yn helpu pobl i ddefnyddio'r gyffordd hon yn fwy diogel. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nodir eich cefnogaeth ar gyfer gostegu traffig. • Mae rheoliadau parcio yn amddiffyn llain welededd cyffordd Lidl a bydd Gorfodi Sifil ar Barcio yn gwella cydymffurfiaeth. • Nodir y gefnogaeth ar gyfer y terfyn cyflymder is a gostegu'r traffig.
<ul style="list-style-type: none"> • Ar Heol Pengam, rydych chi'n cynnig "llwybrau beicio" wedi'u peintio ar ymylon y briffordd. Credaf fod y rhain yn wrthgynhyrchiol am sawl rheswm. Yn gyntaf, maent yn rhy gul; ar y ffordd hyn, mae hi bron yn amhosibl rhoi llwybr beicio sy'n symud beicwyr allan o'r gwter, h.y. y 75cm argymelledig o'r cwrbyn, ac yn ddigon llydan fel y gall ceir glirio beicwyr yn ddiogel os byddant yn gyrru wrth ymyl y llinell wen. Mae hyn yn 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r safon yn argymhell o leiaf 2 fetr yn y dyluniad a lleiafswm o 1.5m metr o leiaf, a bydd y dyluniad yn cyflawni hyn ar gyfer y lonydd beicio ymgynghorol. • Bydd ffordd gerbydau 6.3 metr gyda lonydd traffig deugyfeiriadol yn cael ei chynnal. Bydd effeithiolrwydd y cynllun yn cael ei fonitro a gall

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<p>cael effaith negyddol ar feicwyr dibrofiad oherwydd arwynebau gwael a cheir yn pasio'n agos atynt, ac mae'n cynddeiriogi modurwyr oherwydd ystyriant nad yw beicwyr profiadol yn defnyddio'r lôn feiciau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ateb gwell yw parhau â'r marciau beicio yn y ffordd a'u rhoi'n amlach ar hyd yr ardal arfaethedig. • A yw'r cynigion yn cynnwys manau parcio beiciau mewn lleoliadau cyfleus i'r amwynderau yn yr ardal? 	<p>cyfleoedd pellach i ychwanegu at y cynllun, os byddant o fudd, gael eu hystyried fel rhan o gam 2. Gallai hyn gynnwys mesurau parcio rheoleiddiol ychwanegol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r defnydd o symbolau beicio yn amlwg gydol y cynllun, fesul pellteroedd priodol. • Mae'r cynllun yn cynnwys manau parcio ychwanegol i feiciau yng Nghanol y Dref.
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n hysbys er tro bod y llinellau wedi'u peintio sy'n creu'r lôn feicio ymgynghorol yn ateb hen a gwael ac, felly, ni ddylid eu mabwysiadu ar gynlluniau newydd. • Nid yw'r lôn 1.5m yn rhoi'r lle angenrheidiol i geir fynd heibio i feicwyr yn ddiogel. Mae ceir yn tueddu i gadw'n agos at y llinell, gan orfodi beicwyr i'r gwter neu, yn waeth fyth, eu hatal rhag beicio o gwbl. • Dylid defnyddio dull stryd a rennir, gyda chyn lleied o farciau lonydd â phosibl heblaw logos amlwg beiciau, yn annog pasio'n ddiogel heibio i feiciau a llai o berchenogaeth ar lonydd. Heb unrhyw lonydd ymgynghorol, mae'r traffig yn fwy tebygol o fod yn fwy gofalus. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y dyluniad yn cael ei ystyried ac os bydd y lle sydd ar gael yn caniatáu, bydd maint y lonydd beicio yn cynyddu. Awgrymir y lonydd ymgynghorol ar hyd rhan ddwyreiniol Heol Pengam yn unig. • Nodir eich sylwadau, ond oherwydd lled y briffordd, tybir y bydd y lonydd ymgynghorol yn helpu gyda diogelwch beicwyr ac yn culhau'r briffordd yn weledol, gan helpu i ostwng cyflymder cerbydau a gwella diogelwch; caiff hyn ei fonitro. • Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer gofod a rennir o fewn y terfyn cyflymder 20 mya yng Nghanol Tref Ystrad Mynach.
<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r llwybrau troed a'r llwybrau beicio presennol yn cael eu cynnal a chadw'n iawn, pam fydddech chi'n adeiladu un arall dim ond oherwydd eich bod chi'n gallu cael cyllid 	<ul style="list-style-type: none"> • Nodir eich barn.
<p>Rwy'n cytuno â'r cynnig, yn amodol ar yr addewid i gwblhau'r llwybr beicio hyd at ben deheuol datblygiad Cwm Calon, yr oedd y cyngor wedi ymrwymo i'w gefnogi fel blaenoriaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nodir eich barn. Mae cwblhau Llwybr Beicio Cwm Calon yn gynllun â blaenoriaeth o hyd i Fwrdeistref Sirol Caerffili. Nid yw datblygiad Cynlluniau Teithio Llesol yn y Fwrdeistref yn gyd-ddibynnol.
<p>Dylai'r cyngor wneud popeth yn ei allu i hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw a ffitrwydd. Hefyd, dylai'r cyngor wneud ei orau i sicrhau diogelwch i feicwyr a cherddwyr.</p>	<p>Nodir eich cefnogaeth.</p>

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<ul style="list-style-type: none"> • Ar ôl byw a gweithio yn Ystrad Mynach ers 13 blynedd, heb orddweud o gwbl, gallwn i gyfrif nifer y beicwyr rwyf wedi'u gweld yn teithio ar y llwybrau arfaethedig o gwmpas canol tref Ystrad Mynach ar un llaw. Fel beiciwr hyderus fy hun, mae'r ffordd o gwmpas canol Ystrad Mynach yn rhy beryglus i mi eu defnyddio ac rwyf wedi cadw draw ohonynt. Ni fyddai'r newidiadau mân iawn a gynigir yn newid fy marn am hyn. Y prif broblemau yw, ffordd cul, parcio peryglus ac anghyfreithlon parhaus o gwmpas y system unffordd (er gwaethaf ymdrechion y cyngor i'w reoli), safonau gyrru gwael (arwyddo gwael a thorri ar draws ochr anghywir y ddwy gylchfan fach ganolog) ac ofn fandaliaeth i eiddo os gadewir beic heb neb i ofalu amdano. • Gwell defnydd ar gyllid fyddai gwella'r llwybrau beicio oddi ar y stryd, fel y llwybr anghyflawn rhwng ystâd Cwm Calon a'r rhwydwaith beicio presennol ar Heol Penallta. Er, rwy'n cytuno ag ychwanegu croesfan y tu allan i Lidl. • O'r cynigion, ymddengys bod gostyngiad sylweddol yn y lleoedd parcio ar ochr Lidl o'r stryd. Os felly, dim ond gwneud i bobl barcio ceir ymhellach i lawr y ffordd tuag at gylchfan Tesco na'r hyn sy'n digwydd eisoes fydd hyn, eto'n cynyddu'r risgiau i feicwyr ar y rhan honno o'r ffordd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae lefel isel o feicio yn Ystrad Mynach gan nad oes darpariaeth dda ar ei gyfer ar hyn o bryd ac nid yw'n cysylltu'n dda â'r cymunedau ar hyd Cwm Rhymni. Fodd bynnag, bydd y gwelliant arfaethedig i Lwybrau Teithio Llesol sy'n cysylltu cymunedau lleol, fel y llwybr o Bengam, yn gwella diogelwch a hygyrchedd y Dref i feicwyr. • Mae darparu manau parcio beiciau yn cael ei ystyried. • Mae'r Awdurdod yn gobeithio darparu llwybrau sy'n hwyluso beicio i bob gallu yn yr ardal, gan gynnwys Cwm Calon. Gweler Map y Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol ar wefan Caerffili. • Bydd y cynllun/y safle bysiau yn cael ei ystyried ymhellach a chaiff y safle ei ddiwygio i leihau'r effaith ar nifer y lleoedd parcio sydd ar gael.
<ul style="list-style-type: none"> • Cwblhewch y llwybr beicio sydd y tu ôl i Gwm Calon. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nodir eich cais.
<ul style="list-style-type: none"> • Cytunaf yn frwd fod angen i ni oll fod yn fwy actif – mae tystiolaeth bod ymarfer corff yn gwella lles corfforol a meddyliol. Mae hynny'n ddiarnheuaeth. Er bod y cynigion hyn yn wych, teimlaf yn gryf iawn y byddai cysylltu'r llwybrau beicio sydd eisoes yn bodoli yn fwy buddiol. Mae rhan ohonof o'r farn bod y cyngor eisoes wedi penderfynu ar hyn, ond rwy'n erfyn arnoch i ailystyried. Mae ANGEN cwblhau'r llwybr sy'n cysylltu Cwm Calon a llwybr beicio Ystrad tuag at Barc Penallta. • I bob diben, mae cymuned gyfan Cwm Calon wedi'i thorri i ffordd; DOES DIM BYD o fewn pellter cerdded rhesymol. Mae'n 	<ul style="list-style-type: none"> • Nodir eich barn am gysylltu'r llwybrau presennol. Mae dyletswydd statudol Teithio Llesol Cymru (2013) yn gofyn bod Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn amlygu rhwydwaith o Lwybrau Teithio Llesol Presennol. • Hefyd, roedd y ddyletswydd statudol yn gofyn am greu Map Rhwydwaith Integredig Llesol, sy'n amlygu llwybrau newydd a llwybrau y mae arnynt angen gwelliannau neu gyfleusterau newydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Caerffili.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

atal pobl rhag cerdded lawr i Tesco i brynu llaeth, oherwydd mae'n rhaid iddynt gerdded yr holl ffordd allan o'r stad ac i lawr Heol Penallta. Rwy'n amau y gall pob un ohonom gytuno bod Heol Penallta yn lladdfa. Nid oes unrhyw unigolyn ddim yn ffit iawn yn mynd i gael ei ysbrydoli i symud mwy os bydd rhaid iddo wynebu'r rhiw yna ar y ffordd nôl. Byddwn yn erfyn arnoch i ystyried buddion cwblhau'r rhan fechan hon o'r llwybr beicio - ni allech ddychmygu pa mor fuddiol fyddai cysylltu Cwm Calon â'r economi leol yn Ystrad. Yn hytrach na gorfod neidio yn y car a mynd i Tesco i gael llaeth a bara, byddai pobl yn gwneud y daith i Ystrad, heb y rhiw wirion yna! Rwy'n deall bod rhaid i chi gadw at gyllideb, ond yn fy marn i, rydych chi'n tanamcangyfrif y gwahaniaeth y byddai'n ei wneud, yn enwedig o ran nifer yr ymwelwyr â chanol y dref, gyda gorfodi parcio'n mynd â busnes i ffwrdd o'r busnesau bach yn y dref. Fel cymuned, mae Cwm Calon yn cynnwys teuluoedd ifanc yn bennaf a chredaf fod angen i ni bwysleisio pwysigrwydd ymarfer corff ac, ar yr un pryd, cefnogi busnesau lleol. Byddwn wrth fy modd petawn i'n gallu mynd â'm plant allan ar eu beic, fel y byddai'r rhan fwyaf o'r preswylwyr yma. Ond ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ni fynd ar y brif ffordd, a dydy honno ddim yn ddiogel i blant ifanc. Gallwn ysgrifennu'n angerddol am hyn am ddiwrnodau, ond roeddwn eisiau pwysleisio llais 670 o aelwydydd yng Nghwm Calon sydd (yn absenoldeb unrhyw gyfleusterau yn ein hardal) yn cael eu torri i ffwrdd fwy fwy oni bai ein bod ni'n berchen ar geir. Rwy'n tristáu dros ein plant!

<https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Transport-and-parking/Active-Travel>

- Nodir eich sylwadau ynghylch darparu llwybrau diogel yn cysylltu Cwm Calon â Chanol Tref Ystrad Mynach.
- Mae cyswllt beicio Cwm Calon yn flaenoriaeth o hyd i'r Awdurdod ac rydym yn gweithio i ddatrys materion tir fel y gellir datblygu'r prosiect hyd at gam a fydd yn caniatáu i ni geisio cyllid ar gyfer y gwaith adeiladu.

- Mae cwblhau'r llwybr rhwng Cwm Calon a'r llwybr beicio i Ystrad Mynach yn anghenraid.

- Ar ôl 10 mlynedd a thros 650 o dai yng Nghwm Calon, mae Hengoed a'r pentrefi cyfagos yn aros o hyd i Gyngor

- Nodir eich barn.
- Mae cynllun Cwm Calon yn flaenoriaeth o hyd i'r Awdurdod ond mae'n rhaid iddo ddilyn y prosesau gofynnol cyn y gall gwaith ddechrau.
- Nodir eich barn. Rhoddwyd amod ar y datblygwr i gwblhau rhan o'r llwybr beicio o dan y caniatâd

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<p>Bwrdeistref Sirol Caerffili gwblhau'r llwybr beicio a cherdded i Ystrad Mynach. Roedd hyn yn y cynllunio gwreiddiol ar gyfer y safle hwn ac mae'n cael ei anwybyddu'n llwyr gan y cyngor.</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd y datblygwr o dan yr amod cynllunio "106" wedi cwblhau ei rwymedigaethau ac roedd angen i'r Cyngor gymeradwyo hynny ac, ar y pryd, roedd preswylwyr Cwm Calon wedi herio ynghylch cwblhau hwn ac eto fyth, am ba reswm bynnag, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi dewis anwybyddu'r prosiect hwn ac mae nawr yn canolbwyntio ar roi'r llwybr beicio yn Ystrad Mynach sydd o hyd yn caniatáu i geir barcio arno?	<p>Cynllunio. Mae'r datblygwr wedi cydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon.</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae cwblhau'r cyswllt cerdded a beicio sy'n cysylltu â Chwm Calon yn flaenoriaeth o hyd i'r Awdurdod ond mae'n rhaid iddo ddilyn y prosesau sy'n ofynnol i ddatrys perchenogaeth ar dir a sicrhau cyllid cyn bod y gwaith yn gallu dechrau.
<ul style="list-style-type: none">• Rwy'n anghytuno y dylai hwn gymryd blaenoriaeth dros y llwybr beicio drwy Gwm Calon wrth ymyl glan nant Cylla a fyddai, pe bai'n cael ei gwblhau, yn cynnig cysylltiad diogel hanfodol ac amhrisiadwy â chanol y dref i bentrefi Gelligaer a Chefn Hengoed, yn ogystal â'r boblogaeth fawr iawn nawr yng Nghwm Calon a Phenallta, ac sydd heb ei orffen hyd yn oed nawr er bod hyn wedi'i gynllunio ers dros ddegawd. Fe'i cyflwynwyd i LICC am gyllid ac mae'n annerbyniol bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ETO FYTH yn bwriadu blaenoriaethu Canol Tref Ystrad Mynach ar draul cyflawni'r ymrwymiadau a roesant eisoes i ran Penallta o'r dref. Codom y mater fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn ei Uwchgynllun a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn camarwain preswylwyr trwy awgrymu bod llwybr beicio Cwm Calon wedi'i gwblhau mewn gwirionedd, a oedd ac sydd yn gwbl gelwyddog.• Yn ystod cyfarfod ar yr Uwchgynllun, cawsom sicrwydd, fel cynrychiolwyr Cymuned Cwm Calon, fod cyllid eisoes wedi'i sicrhau a bod cwblhau'r llwybr ar ddigwydd. AROS YDYM NI! Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn methu â chyflawni'u cyfrifoldeb i wasanaethu anghenion poblogaeth Penallta ac maent yn achosi perygl mawr i ddiogelwch ein preswylwyr, yn enwedig ein plant, trwy ganiatáu i'r unig llwybr cerdded a beicio i	<ul style="list-style-type: none">• Nodir eich barn.• Mae bwrw ymlaen â chynllun beicio a cherdded Cwm Calon a'r prosiect yn y rhaglen ddatblygu o hyd. Mae'r cam nesaf yn gofyn bod swyddogion yn sicrhau cytundebau ynghylch y tir yn ôl y drefn briodol cyn gallu ceisio cyllid i adeiladu rhan goll y llwybr.• Mae cynllun Cwm Calon yn flaenoriaeth o hyd i'r Awdurdod ond mae'n rhaid iddo ddilyn y prosesau sy'n ofynnol cyn y gall y gwaith adeiladu ddechrau.• Mae'r buddion a nodwch i gynllun Cwm Calon a'ch ymrwymiad cadarn i ddefnyddio'r seilwaith pan fydd wedi'i gwblhau yn cefnogi cyflawniad y prosiect.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<p>ganol y dref fod ar hyd prif Ffordd Gyswllt Penallta o hyd, sy'n ffordd eithriadol o brysur / beryglus.</p> <ul style="list-style-type: none"> At hynny, mae'r cynnig y dylai'r lôn yng nghanol tref Ystrad Mynach fod yn "ymgynghorol" yn unig, h.y. gall gael ei ddefnyddio gan geir, i barcio a chael ei ddefnyddio gan feiciau hefyd, yn chwerthinllyd ac yn gwbl anniogel, felly mae'n ddiwerth cyn dechrau ac yn wastraff llwyr o arian y Cyngor. DYLID AILGYFEIRIO'R FLAENORIAETH TUAG AT LWYBR BEICIO CWM CALON A CHADW'R YMRWYMIADAU A WNAED I'CH ETHOLWYR! BYDDAI CWBLHAU LLWYBR BEICIO CWM CALON YN GALLUOGI DISGYBLION YSGOL PENALLTAU I FEICIO A/NEU GERDDED I'R YSGOL, SY'N AMHOSIBL AR HYN O BRYD. Yn ogystal â'r buddion amlwg i iechyd a'r amgylchedd, gallai hyn hefyd helpu i leihau'r tagfeydd traffig annerbyniol ac annioddefol sy'n atal preswylwyr rhag cael at eu tai ar stad Cwm Calon ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. 	
<ul style="list-style-type: none"> Credaf y dylai'r cyllid fod wedi'i wario ar gwblhau llwybr beicio Cwm Calon. I gael mwy o bobl yn beicio, mae angen i ti gwblhau'r llwybrau beicio a ddefnyddiant yn hytrach nag anfon pobl ar hyd llwybrau sy'n dod i ben yn sydyn a llwybrau anghyflawn nad ydynt yn cysylltu â'i gilydd 	<ul style="list-style-type: none"> Nodir eich barn. Mae cynllun Cwm Calon yn flaenoriaeth o hyd i'r Awdurdod ac mewn rhaglen o gynlluniau sy'n datblygu. Mae swyddogion yn gweithio i sicrhau cytundebau ynghylch y tir cyn gallu ceisio cyllid i adeiladu rhan goll y llwybr cerdded a beicio sy'n cysylltu â Chwm Calon.
<ul style="list-style-type: none"> Nid canol y dref yw'r lle gwaethaf i feicio o'i gwmpas ac ni fydd lonydd beicio pwrpasol ran o'r ffordd i fyny'r heol yn helpu; mae'r ffordd yn ddigon llydan yn y rhan hon, yna wrth i'r lonydd ddod i ben bydd ceir wedi'u parcio, gan wthio beicwyr i ganol y ffordd. Bydd terfyn cyflymder o 20 mya yn helpu, ond yn realistig, pryd mae ceir yn teithio'n gynt na hynny o gwmpas y dref? 	<ul style="list-style-type: none"> Yr ymgynghoriad hwn yw cam 1 datblygiad Llwybr Teithio Llesol a fydd, pan fydd wedi'i gwblhau, yn gwella'r cyfleoedd cerdded a beicio rhwng Ystrad Mynach a Phengam, gan gysylltu â Chanol prysur y Dref, sy'n brif gyrchfan. Mae'r terfyn cyflymder 20 mya yn galluogi beicwyr i deithio yn y prif safle (yng nghanol lôn y ffordd

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<ul style="list-style-type: none">• Mae angen delio â'r lôn "feicio" sy'n arwain o Ystrad Mynach i Gwm Calon. Mae'r llwybr hwn yn gorffen wrth adael Cwm Calon, mae'n newid o lwybr graean o ansawdd da yn hen lwybr rheilffordd segur, gorslyd, gyda thyfiant drosto a hen gysylltiadau rheilffordd wedi'u gadael ar hyd y lle.• Nid yw'n bleserus cerdded o Gwm Calon i Ystrad Mynach, a bydd gorffen y llwybr hwn yn helpu preswylwyr Cwm Calon a mwy. Mae'r llwybr yn arwain at stad ddiwydiannol Penallta, gan alluogi staff i gerdded yn ddiogel i'r stad ddiwydiannol; hefyd mae'n caniatáu am gysylltiadau pellach i ffwrdd, gan gynnwys Gorsaf Pengam.	<p>gerbydau), gan leihau'r gwrthdaro â cherbydau sydd wedi'u parcio ar ochr y ffordd os darperir lonydd beicio pwrpasol.</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodir eich barn ynghylch cwblhau cyswllt beicio Cwm Calon. Mae bwrw ymlaen â chynllun beicio a cherdded Cwm Calon a'r prosiect yn y rhaglen ddatblygu o hyd. Mae'r cam nesaf yn gofyn bod swyddogion yn sicrhau cytundebau ynghylch y tir yn ôl y drefn briodol cyn gallu ceisio cyllid i adeiladu rhan goll y llwybr.
<ul style="list-style-type: none">• Er fy mod yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig, yn enwedig cyflwyno lonydd beicio pwrpasol o gylchfan Tesco i Heol Pengam, a fyddai'n atal cerbydau mawr rhag parcio ar hyd cefn yr Avenue, gan achosi i draffig fynd i ganol y ffordd i'w goddiweddyd, hoffwn pe bai'r canlynol yn cael eu hystyried:• Bod y terfyn cyflymder o 20MYA yn dechrau o gylchfan Tesco, gyda rhyw fath o fesur gostegu'r traffig ar hyd cefn yr Avenue. Ar hyn o bryd, mae cerbydau'n mynd dros y terfyn presennol o 30MYA rhwng cylchfan Tesco a'r bolardiau presennol ar Heol Pengam yn rheolaidd, gyda llawer yn teithio ar gyflymder o fwy na 50MYA, mae'n ymddangos.• Ar hyn o bryd, mae cerbydau'n parcio'n rheolaidd ar hyd dwy ochr Stryd Davies wrth y gyffordd â Heol Pengam, gan wneud i gerbydau sy'n troi o Bengam i Stryd Davies stopio'n sydyn i ganiatáu am gerbydau sy'n dod i lawr Stryd Davies tuag atynt, gan felly effeithio ar lif y traffig ar Heol Pengam. Pe bai cyfyngiadau ar barcio'n cael eu cyflwyno ar y ddwy ochr o Stryd Davies rhwng y fynedfa gefn i'r Avenue ac i Heol Pengam, byddai hynny'n atal hyn rhag digwydd.	<ul style="list-style-type: none">• Nodir eich cefnogaeth ar gyfer y lonydd beicio. Byddwch yn ymwybodol na fyddai'r lonydd beicio yn atal parcio, ond bydd y defnydd o'r rhan hon o'r briffordd yn cael ei fonitro a gellir ymgynghori ar reoliadau parcio, a'u gweithredu, fel rhan o gam 2 yn natblygiad y cynllun.• Gall ymestyn y terfyn cyflymder o 20mya hyd at gylchfan Tesco gael ei ystyried fel rhan o gam 2 y cynllun.• Bydd symudiadau troi wrth gyffordd Heol Pengam a Stryd Davies yn cael eu hystyried a gwneir addasiadau sy'n gwella diogelwch y gyffordd os byddant yn ymarferol.• Bydd cyfyngiadau ar barcio ar draws yr Awdurdod yn cael eu hystyried a'u blaenoriaethu gan fod Gorfodi Sifil ar Barcio bellach wedi'i gyflwyno.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<ul style="list-style-type: none"> • Cytunaf fod angen rhai o'r newidiadau sydd wedi'u hamlinellu, fel addasiad croesfan sebra i'r droedffordd ymwthiol ar Heol Pengam ger y gyffordd â Stryd Davies, ond bydd y rhan fwyaf ohonynt yn ei gwneud hi'n fwy anodd parcio ein ceir 	<ul style="list-style-type: none"> • Nodir eich cefnogaeth i'r cynllun. • Roedd llawer o'r bobl a ddaeth i'r arddangosfa wedi sôn am broblemau'r lleoedd parcio sydd ar gael ar y stryd; o ganlyniad, bydd y cynllun yn cael ei addasu i leihau unrhyw effaith ar y lleoedd parcio sydd ar gael.
<ul style="list-style-type: none"> • Ymestyn y terfyn cyflymder 20 mya gan gynnwys mesurau gostegu traffig a gwelliannau i'r 20mya presennol trwy Ganol y Dref: dywedais yn glir yn y cyfarfod nad oeddwn yn cytuno â'r mesurau gostegu traffig ond rwy'n addef fod Aelod Lleol y Ward wedi dod i'r casgliad oddi wrth breswylwyr eraill mai dyma ofyniad y mwyafrif. • Addasiadau i'r droedffordd ymwthiol ar Heol Pengam ger cyffordd Stryd Davies; mae'r droedffordd ymwthiol bresennol mor beryglus, oherwydd i fynd heibio'r gyffordd hon o Stryd Davies mewn car, mae'n rhaid i chi fod ar ochr arall y ffordd lle y bydd ceir wedi'u parcio fel arfer, sy'n eich anfon chi'n uniongyrchol i lwybr traffig sy'n dod atoch. • Gwella'r marciau ffordd a'r arwyddion i gyflwyno lôn feicio ymgynghorol: Er bod y map yn yr arddangosfa'n parhau i ddangos y llwybr beicio ar hyd Heol Pengam yn ei gyfanrwydd, ces sicrwydd yn y cyfarfod nad dyma fydd yr achos nawr a bydd y llwybr beicio yn dechrau wrth ben pellach Heol Pengam, y tu hwnt i gyffordd Stryd Davies. • Adeiladu tri thwmpath pen gwastad newydd a fydd yn cynnwys croesfan sebra: Ynghyd â'r rhan fwyaf o breswylwyr eraill, rwy'n anghytuno'n llwyr â'r twmpathau pen gwastad am y rhesymau canlynol: - Ar ba gyflymder bynnag rydych chi'n gyrru at y twmpathau hyn - rydych chi'n eu taro gan arwain at ddifrod i gerbydau modur gyda sbringiau hongiad wedi torri. Ar un car ar ôl y llall, rwyf wedi gorfod gosod chwe sbring coil yr hongiad ac 	<ul style="list-style-type: none"> • Gall y terfyn cyflymder o 20mya gael ei ymestyn dim ond os bydd mesurau effeithiol i ostegu'r traffig a fydd yn gostwng cyflymder cerbydau i lefel briodol yn cyd-fynd ag ef. • Bydd addasiadau i droedffordd ymwthiol y gyffordd wrth gyffordd Stryd Davies yn cael eu hystyried a'u gweithredu, os bydd y newidiadau yn hyfyw. • Bydd marciau'r lleoedd parcio'n cael eu dileu o'r cynllun. Mae'r lôn feicio ymgynghorol yn dechrau o ddechrau'r terfyn cyflymder 20mya (ger cyffordd Stryd Davies) yn arwain at gylchfan bach Tesco ac yn gorffen gerllaw cyffordd yr Avenue ar Heol Pengam. • Os caiff y twmpathau pen gwastad a gynigir yn y cynllun eu croesi ar gyflymder priodol, ni fydd hyn yn achosi difrod i gerbydau. Caiff y twmpathau eu defnyddio'n aml mewn canol tref gan eu bod yn well ar gyfer y cerbydau hirach ar olwynion, fel y lorïau, bysus a cherbydau brys, sy'n defnyddio Canol Trefi yn rheolaidd. • Partneriaeth Gan Bwyll sy'n penderfynu ar y defnydd o Gamerâu Cyflymder parhaol ac fe'u gosodir dim ond os caiff meini prawf llym eu bodloni. • Bydd y safle bysiau yn cael ei hystyried ymhellach

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

un teiar newydd sbon oherwydd bod sbring coil wedi mynd i'r hen deiar. Bydd y lorïau danfon mawr iawn i Lidl's a'r bysiau i'r ysgol i ferched yn cael eu siglo'n ddi-baid ac ni fydd gyrwyr a merched ysgol yn rhy hapus.

- Creu safle bus newydd ac ati ar bwys 43/45 Heol Pengam: Mae'r safle presennol yn cael ei defnyddio'n helaeth, ond rhaid i mi ddweud na fyddwn i eisiau cael safle bysiau y tu allan i fy nhŷ i ac, yn bersonol, byddwn yn fodlon cerdded i orsaf fysiau'r pentref i ddal bus ond rwyf bob amser wedi cydnabod y gall hyn fod yn bell i gerdded i lawer.
- Mae awgrymiadau pellach fel a ganlyn:- Gosod camera cyflymder a fyddai'n peri bod mesurau gostegu traffig a thwmpathau cyflymder yn ddiangen: Cefais wybod na fyddai hyn yn digwydd gan na fyddai'n cydymffurfio â gofynion y gyfraith h.y. o leiaf ddau ddamwain, angheuol neu beidio, cyn yr ystyrir gosod camerâu cyflymder: twpdra llwyr!
- Troi'r fynedfa i'r ysgol i ferched/Lidl/croesffordd talu ac arddangos â Heol Pengam yn gylchfan.
- Atal llif y traffig allan o Stryd Lewis i'r A472 a chaniatáu llif y traffig i'r stryd yn unig; bydd hyn yn atal ac yn gostwng lefel y traffig drwy Heol Pengam o gylchfan Tesco. (Llwybr tarw a ddefnyddir pan fydd ffordd osgoi Ystrad Mynach a thraffig pont Ystrad yn brysur ar adegau brig).
- Y brif broblem i breswylwyr Heol Pengam yn ddiweddar fu parcio ceir. Yn 2002, rhoddwyd cyfle i breswylwyr gael cynllun parcio i breswylwyr yn unig ond, ar y pryd, nid oedd yr amodau traffig mor wael, nawr rwy'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf o'r preswylwyr yn falch o'i gael, os byddai'n bosibl ei gael nawr.

a chaiff y safle (y byrddwr) ei diwygio i leihau'r maint a'r effaith ar y lleoedd parcio fydd ar gael.

- Nodir eich awgrymiadau ynghylch camerâu cyflymder yn hytrach na mesurau gostegu traffig, fodd bynnag, nid ydym yn rheoli'r gwaith o osod camerâu ac, o ganlyniad, nid yw hyn yn opsiwn ar gyfer y dyluniad.
- Byddai eich awgrym i greu cylchfan wrth y fynedfa i Lidl yn gostwng ymhellach nifer y lleoedd parcio sydd ar gael; mae preswylwyr wedi datgan na fyddent yn cefnogi hyn.
- Nodir eich awgrym am y system unffordd. Mae cyflwyno system unffordd yn galw am ystyriaeth ofalus a byddai angen astudiaeth i werthuso'r effaith ar y rhwydwaith priffyrdd. Cafodd yr ymgynghoriad diweddar ar Uwchgynllun Ystrad Mynach nifer o awgrymiadau tebyg ynghylch Rheoli Traffig, a fydd yn cael eu hystyried.
- Gwneir ceisiadau am barcio i breswylwyr i Reolaeth Traffig ac i'w gweithredu, mae angen asesiad o'r cais.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

- Mae mesurau i ostwng cyflymder y traffig yn ardal Ystrad Mynach wedi dod yn hanfodol. Ar hyn o bryd, gyda'r terfyn cyflymder wedi'i osod ar 30MYA, mae nifer sylweddol o geir yn cyrraedd cyflymder o ryw 60MYA rhwng cylchfan Tesco a phen uchaf Heol Pengam yn mynd i mewn i Ystrad Mynach. Byddai ail ardal wedi'i chodi 75mm wrth i chi ddod i Heol Pengam o gylchfan Tesco (yng nghyffiniau ardal yr echelon â llinellau) yn atal traffig rhag gallu magu cyflymder yn gyflym iawn, fel y gwnânt ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o ddrwg ar y penwythnos. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r terfyn cyflymder 20MYA yn cael ei ymestyn tuag at gylchfan Tesco, a'r ardal â llinellau.
- Mae lonydd beicio pwrpasol yn syniad da ar ddwy ochr y ffordd gerbydau. Byddai angen arwyddion amlwg i sicrhau nad yw cerbydau, yn enwedig lorïau cymalog a bysiau, yn mynd i'r lonydd beicio am gyfnodau ar y tro. (mae ffotograffau amgaeedig yn dangos maint y cerbydau sy'n parcio ar Heol Pengam rhwng cylchfan Tesco ac ael y bryn yn rheolaidd, rhai am gyfnodau o hyd at 1 i 2 awr, neu fwy. Mae'r rhan fwyaf o'r ffotograffau yn rhai diweddar iawn)
- Mae'r groesfan sebra gerllaw gwaelod Stryd Davies yn syniad da. Mae croesi fan yno, yn enwedig os bydd bws wrth y safle presennol, yn gallu bod yn loteri oherwydd cyflymder canran sylweddol o'r traffig presennol. Rydym yn cymryd yn ganiataol na chaniateir i unrhyw geir barcio ar Stryd Davies gerllaw'r gyffordd â Heol Pengam. Gall troi i Stryd Davies fod yn anodd ar hyn o bryd, yn enwedig os bydd traffig yn dod allan o'r lôn sy'n mynd i'r Avenue. Gobeithio? bydd yr 20MYA yn helpu gyda'r traffig sy'n mynd o gwmpas y troad llym o Heol Pengam i ganol y dref. Yn aml, mae traffig presennol yn mynd rownd y cornel hwnnw ymhell dros y llinell doredig yng nghanol y ffordd.

Nodir eich sylwadau.

- Gall ymestyn y terfyn cyflymder 20mya gael ei ystyried yn ail gam y cynllun ar ôl gwerthuso effaith cam 1.
- Gall y lonydd beicio gael eu cyfuno â gorchymyn atal aros i sicrhau nad yw cerbydau'n parcio gerllaw'r lonydd. Caiff effaith y cynllun ei gwerthuso a gall y gorchymyn atal aros gael ei ystyried fel rhan o gam 2 y cynllun. Y mesur hwn yw'r unig ffordd o allu rheoleiddio parcio.
- Bydd y safle bysiau yn cael ei symud o gyffordd Stryd Davies/Heol Pengam a bydd nifer y ceir sydd wedi'u parcio yn yr ardal hon yn gostwng oherwydd bydd llinellau igam-ogam y groesfan sebra yn atal parcio ac yn ymestyn ar draws y gyffordd. Bydd eich sylwadau am y symudiad troi wrth gyffordd Heol Pengam a Stryd Davies yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y dyluniad.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'r cynllun arfaethedig hwn yn gwneud unrhyw beth mewn gwirionedd i helpu beicio na cherdded, heblaw gosod croesfan fawr ei hangen ar ffordd brysur. Ni fydd lonydd beicio ymgynghorol ar ddarn byr o'r ffordd yn cefnogi naill amcan teithio llesol na'r llall, sef llwybrau Cerdded a Beicio! Er bod unrhyw fesurau gostegu traffig a gostwng cyflymder i'w canmol, ni ddylid eu cuddio dan gochl gwella llwybrau cerdded a beicio. Mae cyfleoedd gwell i fodloni nodau teithio llesol, sef cwblhau'r llwybr o Gwm Calon i Ystrad Mynach, ar hyd glan nant Cylla, lle y mae angen rhyw 300 metr yn unig o draffig a byddai'n agor llwybr o Ystrad i Gelligaer, Penpedairheol a Chefn Hengoed. 	<ul style="list-style-type: none"> Nodir eich barn am y cynnig. Nodir eich sylwadau ynghylch darparu cyswllt beicio yn cysylltu Cwm Calon ag Ystrad Mynach. Mae cyswllt beicio Cwm Calon yn flaenoriaeth o hyd i'r Awdurdod ac rydym yn gweithio i ddatrys materion tir fel y gellir datblygu'r prosiect hyd at gam a fydd yn caniatáu i ni geisio cyllid ar gyfer y gwaith adeiladu.
<ul style="list-style-type: none"> Nid hyn sydd orau i fod o fudd. Pam yn y byd nad yw'r llwybr beicio sy'n mynd ar hyd Cwm Calon ac yn arwain at Gefn Hengoed, Glyngaer a Gelligaer, ond sy'n dod i ben ychydig gannoedd o fetrau cyn ymuno â'r prif lwybr beicio sy'n cysylltu â Hengoed ac yna ymlaen i Gasnewydd i un cyfeiriad ac i Barc Penallta a gorllewin Cymru yn cael ei gwblhau yn gyntaf. Byddai'n cynnig cysylltiadau diogel i gerddwyr a beicwyr fynd o Gefn Hengoed a Chwm Calon i orsafoedd Ystrad Mynach a Hengoed. Byddai plant yn elwa'n fawr o gwblhau'r llwybr beicio hwnnw. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i blant ddefnyddio'r brif ffordd i gysylltu â'r prif lwybr beicio/gorsafoedd gan nad yw'n ddiogel beicio na cherdded yr ychydig gannoedd o fetrau o dan y bont. Nid oes DIM cyfleusterau gan Gwm Calon ac mae cludiant cyhoeddus yn dda i ddim. Cwblhewch y llwybr beicio fan yno yn hytrach. 	<ul style="list-style-type: none"> Nodir eich sylwadau am gynnig y cynllun. Nodir eich sylwadau ynghylch darparu'r cyswllt beicio sy'n cysylltu Cwm Calon ag Ystrad Mynach. Mae cyswllt beicio Cwm Calon yn flaenoriaeth o hyd i'r Awdurdod ac rydym yn gweithio i ddatrys materion tir fel y gellir datblygu'r prosiect hyd at gam a fydd yn caniatáu i ni geisio cyllid ar gyfer y gwaith adeiladu.
<ul style="list-style-type: none"> Hoffwn gadarnhau fy mod yn llwyr gefnogi'r sylwadau a ddarparwyd eisoes gan Gymdeithas Gymunedol Cwm Calon. Ni welaf fawr o bwynt ailadrodd y pwyntiau a godwyd, ond hoffwn ychwanegu'r sylwadau canlynol mewn ymateb i ymgynghoriad blaenorol ar y Cynllun Teithio Llesol. Meddyliais fod y Cyngor 	<ul style="list-style-type: none"> Nodir y pwyntiau a godwyd. Mae Cyngor Cymuned Cwm Calon wedi cael ymateb i'r materion a godwyd. Cadarnhaf fod cynllun Cwm Calon yn cael ei symud yn ei flaen o hyd ond bu oedi iddo oherwydd yr angen i ddatrys materion tir. Mae cyswllt beicio Cwm Calon yn flaenoriaeth o

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<p>wedi cael nifer sylweddol o sylwadau'n cefnogi cwblhau llwybr Beicio/Cerdded Cwm Calon one mae hwn wedi'i anwybyddu unwaith eto. Teimlaf fod preswylwyr wedi cael nifer o ymatebion anghyson gan y Cyngor ynghylch llwybr Cwm Calon ac rwy'n meddwl falle bod angen i broses graffu'r Cyngor archwilio methiant yr Awdurdod dros y degawd diwethaf i ddatrys y mater hwn.</p> <ul style="list-style-type: none">• Nid wyf o'r farn y dylai cwblhau'r llwybr ddibynnu ar gymorth ariannol gan y Cynllun Teithio Llesol, oherwydd roedd y broblem hon yn bodoli am gryn amser cyn bod y cyllid hwn ar gael. Credaf fod blaenraglen gynllunio'r Cyngor yn ddiffygiol iawn, ar y gorau. Mae angen ymchwilio i hyn.	<p>hyd i'r Awdurdod ac rydym yn gweithio i ddatrys materion tir fel y gellir datblygu'r prosiect hyd at gam a fydd yn caniatáu i ni geisio cyllid ar gyfer y gwaith adeiladu.</p>
<ul style="list-style-type: none">• Nid wyf yn deall budd cyffredinol y cynnig a sut bydd yn annog pobl i feicio. Nid yw'n arwain at unrhyw le penodol; dydy darn o ffordd gyda marciau newydd ddim yn mynd i ychwanegu rhyw lawer.• Mae llwybrau beicio presennol yn yr ardal sydd angen eu cwblhau, fel y llwybr beicio o Gwm Calon. Pe bai'r cyngor yn buddsoddi i gwblhau'r llwybr hwn, dim ond tua 300 metr y mae angen iddo ei gwblhau a byddai o fudd mawr i gymaint mwy o breswylwyr a, gobeithio, cynnig llwybr mwy diogel i feicwyr, yn hytrach na defnyddio prif ffordd.	<ul style="list-style-type: none">• Dyma gam 1 o ddatblygu Llwybr Teithio Llesol; bydd y llwybr cyfan yn cysylltu Ystrad Mynach â Phengam. Mae'r terfyn cyflymder 20 mya yn galluogi beicwyr i deithio yn y prif safle (yng nghanol lôn y ffordd gerbydau), gan leihau'r gwrthdaro â cherbydau sydd wedi'u parcio wrth ochr y ffordd os darperir lonydd beicio pwrpasol. Pan fydd y llwybr hwn wedi'i gwblhau, bydd yn gwella'r seilwaith, gan gynnig cyfleoedd gwell i gerdded a beicio i gyrraedd y nwyddau, y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yng nghanol tref Ystrad Mynach.• Nodir eich sylwadau ynghylch darparu'r cyswllt beicio terfynol sy'n cysylltu Cwm Calon ag NCN47/ Ystrad Mynach. Mae cyswllt beicio Cwm Calon yn flaenoriaeth o hyd i'r Awdurdod ac rydym yn gweithio i ddatrys materion tir fel y gellir datblygu'r prosiect hyd at gam a fydd yn caniatáu i ni geisio

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

	<p>cyllid ar gyfer y gwaith adeiladu.</p>
<ul style="list-style-type: none"> Hoffwn gadarnhau fy mod yn llwyr gefnogi'r sylwadau a ddarparwyd eisoes ar ran Cymdeithas Gymunedol Cwm Calon. Ni welaf fawr o bwynt ailadrodd y pwyntiau a godwyd, ond hoffwn ychwanegu'r sylwadau canlynol: mewn ymateb i ymgynghoriad blaenorol ar y Cynllun Teithio Llesol, meddyliais fod y Cyngor wedi cael nifer sylweddol o sylwadau'n cefnogi cwblhau llwybr Beicio/Cerdded Cwm Calon one mae hwn wedi'i anwybyddu unwaith eto. Teimlaf fod preswylwyr wedi cael nifer o ymatebion anghyson gan y Cyngor ynghylch llwybr Cwm Calon ac rwy'n meddwl falle bod angen i broses graffu'r Cyngor archwilio methiant yr Awdurdod dros y degawd diwethaf i ddatrys y mater hwn. Nid wyf o'r farn y dylai cwblhau'r llwybr ddibynnu ar gymorth ariannol gan y Cynllun Teithio Llesol, oherwydd roedd y broblem hon yn bodoli am gryn amser cyn bod y cyllid hwn ar gael. Credaf fod blaenraglen gynllunio'r Cyngor yn ddiffygiol iawn, ar y gorau. Mae angen ymchwilio i hyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Nodir eich cefnogaeth i'r sylwadau a wnaed gan Gymdeithas Gymunedol Cwm Calon. Cytunaf fod y gefnogaeth ar gyfer dolen yn cysylltu llwybr beicio Cwm Calon yn arwyddocaol yn ystod datblygiad Map y Rhwydwaith Integredig. Nid yw'r mater wedi'i anwybyddu, ond mae'n rhaid i swyddogion sicrhau cytundebau ar gyfer y tir cyn gallu chwilio am yr arian i adeiladu rhan goll y llwybr. Mae'r cynllun yn flaenoriaeth o hyd i'r Awdurdod ond mae'n rhaid iddo ddatrys mater y tir a chwblhau'r prosesau gofynnol cyn y gall gwaith ddechrau.
<ul style="list-style-type: none"> Yn bwysicaf oll - ni ddylai'r pontio rhwng 20/30 mya wrth ben gogleddol Heol Pengam fod yn ei safle arfaethedig. Yn hytrach, dylai fod ar waelod y rhiw, fymryn cyn cylchfan Tesco fel y'i dangosir ar y map (a dderbyniwyd). Mae gosod croesfan hirddisgwyliedig y tu allan i rif 69 Heol Pengam yn syniad gwych. Fodd bynnag, gallai ei greu fel croesfan pelican wedi'i rheoli gan olau fod yn well. Mae gyrwyr yn anwybyddu'r terfynau cyflymder, yn enwedig yn y nos – felly, dylid cynnwys camera cyflymder hefyd yn y 	<ul style="list-style-type: none"> Gall ymestyn y terfyn cyflymder 20mya gael ei ystyried fel rhan o gam 2 y cynllun. Nodwyd eich bod yn ffafrio croesfan wedi'i rheoli gan olau. Fodd bynnag, o ystyried lefel a llif y traffig, ystyrir y bydd croesfan sebra yn rhoi'r amwynder a'r flaenoriaeth angenrheidiol i gerddwyr. Partneriaeth Gan Bwyll sy'n penderfynu ar y defnydd o Gamerâu Cyflymder parhaol ac fe'u gosodir dim ond os caiff meini prawf llym eu

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

<p>cynigion hyn.</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae twmpathau pen gwastad yn well, gyda marciau ffordd ddigonol. Fodd bynnag, dylid cynnwys twmpath pen gwastad ychwanegol ar y ffordd y tu allan i 4/5/6 The Avenue - byddai hyn yn cefnogi'r syniad o barth 20mya, yn dechrau wrth Bwynt B ar fy map (a dderbyniwyd) a gostwng cyflymder y traffig ar y rhan honno i lawr y rhiw.• Mae tyfiant bellach yn gorchuddio hen lwybr troed Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili rhwng 91 Heol Pengam a'r Avenue. Y Cyngor sy'n berchen arno ond gadwyd iddo fynd i'r cyflwr hwn. Dylid ei ailagor fel rhan o'r cynllun hwn.	<p>bodloni.</p> <ul style="list-style-type: none">• Gall ymestyn y terfyn cyflymder gael ei ystyried fel rhan o gam 2 y cynllun, pan fydd effaith y newidiadau wedi'i gwerthuso.• Mae'r llwybr troed a nodwyd gennych wedi'i ystyried ac nid yw'n rhan o asedau priffyrdd yr Awdurdod. Byddai'n well ystyried y mater hwn yn rhan o Uwchgynllun Ystrad Mynach.
<ul style="list-style-type: none">• Cytunaf â'ch cynigion, ond yn fy marn i, dylai fod cyfleuster "croesfan" ar y ffordd gerllaw'r gyffordd sy'n troi i Lidl, yr ysgol sir, ac ati.	<ul style="list-style-type: none">• Byddai darparu ail gyfleuster croesi yn anodd ei weithredu oherwydd cyfyngiadau ar welededd a safle. Hefyd, byddai'r cyfleuster yn gofyn am ostwng lefel y parcio sydd ar gael wrth ochr y stryd yn sylweddol, ac mae preswylwyr wedi datgan na fyddent yn cefnogi hyn. Dylai ymestyn y terfyn 20mya a'r mesurau gostegu traffig wella amwynder a diogelwch cerddwyr yng Nghanol y Dref.

Adroddiad Cryno'r Ymgynghoriad ar Gam 1 y Llwybr Teithio Llesol o Ystrad Mynach i Bengam

Cafwyd gohebiaeth bellach drwy'r e-bost ac mae'r holl ymatebwyr wedi cael ateb.